OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2313 (Cy.184)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *4 Awst 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Awst 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Awst 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN 1

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 31 Awst 2007.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod academaidd" ("*academic authority*"), mewn perthynas â sefydliad, yw'r corff llywodraethu neu'r corff arall sydd â swyddogaethau corff llywodraethu ac mae'n cynnwys person sy'n gweithredu gydag awdurdod y corff hwnnw;

ystyr "cwrs cyfredol" ("*current course*") yw'r cwrs dynodedig y mae person yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad ag ef neu am gael ei gydnabod yn fyfyriwr cymwys;

ystyr "cwrs cymwys" ("*qualifying course*") yw cwrs—

(a) sydd—

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 12.

(i) yn gwrs ôl-raddedig neu'n gwrs cyffelyb; a

(ii) sy'n para am o leiaf ddwy flynedd academaidd; a

(b) y cafodd y myfyriwr ar ei gyfer, am o leiaf ddwy flynedd academaidd o'r cwrs, ddyfarniad statudol ac eithrio dyfarniad a fwriadwyd i helpu gyda gwariant ychwanegol yr oedd y myfyriwr yn gorfod ei dynnu mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar y cwrs oherwydd anabledd y mae neu yr oedd yn ei ddioddef;

ystyr "Cymuned Ewropeaidd" ("*European Community*") yw'r diriogaeth a ffurfir gan Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd fel y'i cyfansoddir o dro i dro;

ystyr "Deddf 1998" ("*1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw 1 Medi 2007;

ystyr "dyfarniad statudol" ("*statutory award*") yw unrhyw ddyfarniad a roddir, unrhyw grant a delir, neu unrhyw gymorth arall a ddarperir yn rhinwedd Deddf 1998 neu Ddeddf Addysg 1962(**2**), neu unrhyw ddyfarniad, grant neu gymorth arall cyffelyb mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs a delir o gronfeydd cyhoeddus;

ystyr "y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr" ("*student loans legislation*") yw Deddf Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) 1990, Gorchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990, Deddf Addysg (Yr Alban) 1980 a rheoliadau a wnaed odani, Gorchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998 a rheoliadau a wnaed odano neu Ddeddf 1998 a rheoliadau a wnaed odani;

ystyr "ffoadur" yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi fel ffoadur o fewn ystyr "*refugee*" yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951(**3**) fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967(**4**);

ystyr "grantiau at gostau byw a chostau eraill" ("*grants for living and other costs*") yw'r grantiau sy'n daladwy o dan reoliadau 20 neu 22;

ystyr "grantiau atodol" ("*supplementary grants*") yw'r grantiau sy'n daladwy o dan Bennod 4 o Ran 4;

mae i "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yr ystyr a roddir gan reoliad 10;

ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*") yw person—

(a) sydd wedi'i hysbysu gan berson yn gweithredu dan awdurdod yr Ysgrifenydd Gwladol dros yr Adran Gartref y tybir, er ystyried nad yw'n gymwys i'w gydnabod fel ffoadur, ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i neu aros yn y Deyrnas Unedig;

(b) a gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu aros yn unol â hynny;

(c) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi'i adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben neu y mae apêl (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(**5**) ynghylch caniatâd y person i ddod i mewn neu i aros) yn yr arfaeth; ac

(**2**) 1962 p.12; rhoddwyd yn lle adrannau 1 i 4 ac Atodlen 1 y ddarpariaeth a osodir yn Atodlen 5 i Ddeddf Addysg 1980 (p.20). Diwygiwyd adran 1(3)(d) gan Ddeddf Addysg (Grantiau a Dyfarniadau) 1984 (p.11), adran 4. Diwygiwyd adran 4 gan Ddeddf Addysg 1994 (p.30), Atodlen 2, paragraff 2. Cafodd y Ddeddf gyfan ei diddymu gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30), adran 44(2) ac Atodlen 4, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a'r arbedion a osodir yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) 1998 (O.S. 1998/3237), erthygl 3.

(**3**) Gorch. 9171.

(**4**) Gorch. 3906 (allan o brint; mae llungopïau ar gael, yn rhad ac am ddim, oddi wrth yr Is-adran Cymorth i Fyfyrwyr, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington DL3 9BG.

(**5**) 2002 p. 41.

(ch) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod er pan gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu aros;

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*2006 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006(**6**);

ystyr "sefydliad Ewropeaidd" ("*European institution*") yw—

(a) Canolfan Bologna;

(b) Coleg Ewrop;

(c) yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

**Diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006**

**4.** Mae Rheoliadau 2006 wedi'u diwygio yn unol ag Atodlen 1.

**Dirymu a darpariaethau arbed**

**5.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 6 a 7, mae Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006 wedi'u dirymu o ran Cymru.

**6.** Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2006 yn parhau i fod yn gymwys.

**7.** Bydd Rheoliadau 2006 yn parhau i fod yn gymwys o ran Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ond cyn 1 Medi 2007 ac mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ond cyn 1 Medi 2006 cyn belled â bod Rheoliadau 2006 yn ymwneud â blwyddyn academaidd sy'n dechrau yn y cyfnod hwnnw.

**8.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran darparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007, p'un a gaiff unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn ei wneud cyn, ar neu ar ôl, 1 Medi 2007.

# RHAN 2

## GWNEUD CAIS AM GYMORTH A CHYMHWYSTRA

**Ceisiadau**

**9.**—(1) Onid yw person sy'n ceisio cymorth o dan y Rheoliadau hyn eisoes yn fyfyriwr cymwys yn rhinwedd rheoliad 10(10), rhaid iddo gyflwyno cais am gael ei ystyried yn fyfyriwr cymwys a chais am gymorth ar y ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru i'r sefydliad Ewropeaidd perthnasol erbyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

(2) Pan fo person sy'n ceisio cymorth o dan y Rheoliadau hyn eisoes yn fyfyriwr cymwys yn rhinwedd rheoliad 10(10), rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig erbyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ei fod yn dymuno gwneud cais am gymorth o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw—

(a) 30 Medi 2007, yn achos Canolfan Bologna;

(b) 30 Medi 2007, yn achos Coleg Ewrop; ac

(c) 30 Medi 2007, yn achos yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru estyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau os ydynt o'r farn bod amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau hynny.

(**6**) O.S. 2006/1794 (Cy.189).

**Myfyrwyr cymwys**

**10.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael cymorth ariannol mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn ac yn unol â hwy.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) ac (8), mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yng Ngholeg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd—

(a) os yw awdurdod academaidd y sefydliad Ewropeaidd sy'n darparu'r cwrs dynodedig yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig bod gan y person gyfle rhesymol o gael cynnig lle ar y cwrs hwnnw gan yr awdurdod academaidd; a

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu mewn cysylltiad â chais am gymorth o dan y Rheoliadau hyn ei fod yn dod o fewn un o'r categorïau yn Rhan 2 o Atodlen 2.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) ac (8), mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yng Nghanolfan Bologna—

(a) os yw awdurdod academaidd Canolfan Bologna yn ei enwi i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru; a

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu mewn cysylltiad â chais am gymorth o dan y Rheoliadau hyn ei fod yn dod o fewn un o'r categorïau yn Rhan 2 o Atodlen 2.

(4) Nid yw person yn fyfyriwr cymwys—

(a) os yw'r person hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff (5), wedi bod yn bresennol ar gwrs cymwys;

(b) os yw wedi torri rhwymedigaeth i ad-dalu unrhyw fenthyciad;

(c) os yw wedi cyrraedd ei 18 oed ac nad yw wedi cadarnhau unrhyw gytundeb ynghylch benthyciad a wnaed gydag ef pan oedd o dan 18 oed; neu

(ch) os yw, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi dangos drwy ei ymddygiad ei fod yn anffit i gael cymorth.

(5) Nid yw paragraff (4)(a) yn gymwys os yw'r person wedi bod yn bresennol ar gwrs cymwys ond bod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu, o roi sylw i amgylchiadau penodol y person hwnnw, ei bod yn briodol talu cymorth iddo mewn cysylltiad â'r cwrs cyfredol.

(6) At ddibenion paragraff (4)(b) ac (c) ystyr "benthyciad" yw benthyciad a wneir o dan y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr.

(7) Mewn achos pan fo'r cytundeb ar gyfer benthyciad yn ddarostyngedig i gyfraith yr Alban, dim ond os cafodd y cytundeb ei wneud—

(a) cyn 25 Medi 1991; a

(b) gyda chydsyniad curadur y benthyciwr neu ar adeg pan na fu ganddo guradur y mae paragraff (4)(c) yn gymwys.

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), rhaid i nifer y myfyrwyr cymwys beidio â bod—

(a) yn fwy nag 1, yn achos Canolfan Bologna;

(b) yn fwy na 2, yn achos Coleg Ewrop; ac

(c) yn fwy nag 1, yn achos yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

(9) Caniateir mynd dros ben y nifer mwyaf o fyfyrwyr cymwys a bennir ar gyfer Sefydliad Ewrop yn is-baragraff (8) os yw'n angenrheidiol gwneud hynny, ym marn Gweinidogion Cymru, i ganiatáu i berson sy'n dod o fewn paragraff 12 Rhan 2 o Atodlen 2 gymhwyso i gael cymorth am flwyddyn academaidd berthnasol.

(10) At ddibenion is-baragraff (9), ystyr "blwyddyn academaidd berthnasol" yw blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007 ond ar neu cyn 31 Awst 2008.

(11) Ni chaiff myfyriwr cymwys y mae blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs yn dechrau mewn cysylltiad ag ef ar neu ar ôl 1 Medi 2000, ar unrhyw adeg, gymhwyso i gael cymorth at fwy nag un cwrs dynodedig.

(12) Er gwaethaf paragraffau (2) i (4) ac yn ddarostyngedig i baragraffau (8), (13) a (14), mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig mewn sefydliad Ewropeaidd—

(a) os cymhwysodd fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad—

(i) â blwyddyn academaidd gynharach ar y cwrs cyfredol; neu

(ii) â chwrs dynodedig yr oedd yn bresennol arno yn yr un sefydliad Ewropeaidd ac y trosglwyddwyd ei statws fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

(b) nad yw ei statws fel myfyriwr cymwys wedi'i derfynu.

(13) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn ffoadur neu'n briod, partner sifil, plentyn neu lysblentyn i ffoadur, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr un sefydliad Ewropeaidd y trosglwyddwyd ei statws fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

(b) statws ffoadur A neu statws ffoadur priod, partner sifil, rhiant neu lysriant i A, yn ôl y digwydd, i fod i ddod i ben cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi ac nad oes, ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd honno'n dechrau, unrhyw ganiatâd pellach i aros wedi'i roi ac nad oes unrhyw apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'n gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(14) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n briod, partner sifil, plentyn neu lysblentyn i berson o'r fath, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr un sefydliad Ewropeaidd y trosglwyddwyd ei statws fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

(b) y cyfnod pryd y caniateir i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig i fod i ddod i ben cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi ac nad oes, ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd honno'n dechrau, unrhyw ganiatâd pellach i aros wedi'i roi nac unrhyw apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'n gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(15) Nid yw paragraffau (13) a (14) yn gymwys os dechreuodd y myfyriwr y cwrs y penderfynodd Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw fod y myfyriwr yn fyfyriwr cymwys cyn 1 Medi 2007.

(16) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd y camau a gwneud yr ymholiadau y maent yn barnu eu bod yn angenrheidiol i benderfynu a yw person yn fyfyriwr cymwys.

(17) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu person y rhoddwyd gwybod iddynt amdano o dan baragraff (2)(a) neu a enwyd o dan baragraff (3)(a) a yw'n cymhwyso fel myfyriwr cymwys.

(18) Rhaid i berson sydd wedi cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (11) ei fod yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs yng Ngholeg Ewrop neu'r Athrofa

Brifysgol Ewropeaidd a pherson sy'n fyfyriwr cymwys yng Ngholeg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn rhinwedd paragraff (12), roi i Weinidogion Cymru, erbyn y dyddiad cau i wybodaeth ariannol ddod i law, unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth y maent yn gofyn amdani er mwyn penderfynu swm y cymorth sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd.

(19) Y dyddiad cau i wybodaeth ariannol ddod i law—

(a) os yw'r myfyriwr cymwys yn dod o fewn paragraff 12 Rhan 2 o Atodlen 2, yw 1 Ionawr 2008 neu, yn achos grantiau sy'n daladwy o dan reoliadau 20(7) neu 22(6), 1 Awst 2008;

(b) mewn unrhyw achos arall, yw 30 Medi 2007 neu, yn achos grantiau sy'n daladwy o dan reoliadau 20(7) neu 22(6), 28 Chwefror 2008.

(20) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu myfyriwr cymwys o swm y cymorth sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd, os o gwbl.

## Cyrsiau dynodedig

**11.** Mae cwrs yn gwrs dynodedig at ddibenion adran 22(1) o Ddeddf 1998 a rheoliad 10 os yw—

(a) yn gwrs ôl-raddedig neu'n gwrs cyffelyb;

(b) yn gwrs llawnamser;

(c) yn para am o leiaf un flwyddyn academaidd; ac

(ch) yn cael ei ddarparu gan sefydliad Ewropeaidd.

## Cyfnod cymhwystra

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, bydd statws myfyriwr fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn terfynu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y byddai'r sefydliad Ewropeaidd perthnasol fel arfer yn disgwyl i'r myfyriwr gwblhau'r cwrs ynddi ("cyfnod cymhwystra").

(2) Bydd cyfnod cymhwystra'r myfyriwr yn terfynu pan fo'r myfyriwr—

(a) yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig o dan amgylchiadau lle na fyddai Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo ei statws fel myfyriwr cymwys yn unol â rheoliad 13; neu

(b) yn rhoi'r gorau i'w gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel oddi arno.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu cyfnod cymhwystra'r myfyriwr os ydynt wedi'u bodloni bod ymddygiad y myfyriwr wedi dangos ei fod yn anffit i gael cymorth.

(4) Os bydd cyfnod cymhwystra'r myfyriwr yn terfynu cyn diwedd y flwyddyn academaidd pryd y bydd y myfyriwr yn cwblhau'r cwrs mewn gwirionedd, caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw bryd, estyn neu adnewyddu'r cyfnod cymhwystra am y cyfnod y byddant yn penderfynu arno.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod myfyriwr cymwys wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i roi gwybodaeth o dan y Rheoliadau hyn neu ei fod wedi rhoi gwybodaeth sy'n anghywir o ran manylyn perthnasol, caiff Gweinidogion Cymru wneud un neu ragor o'r canlynol—

(a) terfynu cyfnod cymhwystra'r myfyriwr;

(b) penderfynu nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso mwyach i gael unrhyw fath penodol o gymorth neu unrhyw swm penodol o gymorth;

(c) trin unrhyw gymorth sydd eisoes wedi'i dalu i'r myfyriwr fel gordaliad y caniateir ei adennill yn unol â rheoliad 39.

### Trosglwyddo cymhwystra

**13.**—(1) Pan fo myfyriwr cymwys yn trosglwyddo i gwrs dynodedig arall yn yr un sefydliad Ewropeaidd, rhaid i Weinidogion Cymru drosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys—

(a) os byddant yn cael cais oddi wrth y myfyriwr cymwys am wneud hynny;

(b) os ydynt wedi'u bodloni bod y myfyriwr cymwys wedi dechrau bod yn bresennol ar y cwrs arall hwnnw ar argymhelliad yr awdurdod academaidd; ac

(c) os nad yw statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys wedi terfynu.

(2) Mae myfyriwr cymwys sy'n trosglwyddo o dan baragraff (1) i gael mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo iddo weddill y cymorth a aseswyd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo oddi wrtho.

(3) Ni chaiff myfyriwr cymwys sy'n trosglwyddo o dan baragraff (1) ar ôl i Weinidogion Cymru asesu cymorth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'r myfyriwr yn trosglwyddo oddi wrtho ond cyn i'r myfyriwr gwblhau'r flwyddyn honno, mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo iddo, wneud cais am grant arall o fath y mae eisoes wedi gwneud cais amdano o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo oddi wrtho.

## RHAN 3

## DARPARU GWYBODAETH

### Gwybodaeth

**14.** Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais am wneud hynny, rhaid i bob ceisydd a phob myfyriwr cymwys roi i Weinidogion Cymru yr wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn credu bod arnynt ei hangen at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**15.** Rhaid i bob ceisydd a phob myfyriwr cymwys roi gwybod ar unwaith i Weinidogion Cymru a rhoi'r manylion iddynt os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn digwydd—

(a) ei fod yn tynnu'n ôl o'i gwrs, yn rhoi'r gorau iddo neu'n cael ei ddiarddel oddi arno;

(b) ei fod yn trosglwyddo i gwrs arall yn yr un sefydliad Ewropeaidd;

(c) ei fod yn rhoi'r gorau i fod yn bresennol ar y cwrs ac nad yw'n bwriadu parhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd neu nad yw'n cael caniatâd i barhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd;

(ch) ei fod yn absennol o'i gwrs am fwy na 60 o ddiwrnodau oherwydd salwch neu am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall;

(d) bod y mis ar gyfer dechrau'r cwrs neu ei gwblhau yn newid;

(dd) bodei gyfeiriad cartref neu ei gyfeiriad yn ystod y tymor yn newid.

**16.** Rhaid i'r wybodaeth a roddir i Weinidogion Cymru yn unol â'r Rheoliadau hyn fod ar y ffurf y gofynnir amdani gan Weinidogion Cymru ac, os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn bod yr wybodaeth yn cael ei llofnodi gan y person sy'n ei rhoi, mae llofnod electronig ar y ffurf a bennir ganddynt yn bodloni'r gofyniad hwn.

# RHAN 4

## CYMORTH ARIANNOL

### Cyffredinol

**17.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), y rheol gyffredinol yw—

(a) bod myfyriwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig a ddarperir gan Ganolfan Bologna ("myfyriwr Canolfan Bologna") yn cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd ar y cwrs hwnnw yn unol â darpariaethau Pennod 1;

(b) bod myfyriwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig a ddarperir gan Goleg Ewrop ("myfyriwr Coleg Ewrop") yn cymhwyso mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd ar y cwrs hwnnw i gael—

(i) grant at ffioedd a grantiau at gostau byw a chostau eraill yn unol â Phennod 2; a

(ii) grantiau atodol yn unol â Phennod 4; ac

(c) bod myfyriwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig a ddarperir gan yr Athrofa ("myfyriwr Athrofa") yn cymhwyso mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd i gael—

(i) grantiau at gostau byw a chostau eraill yn unol â Phennod 3; a

(ii) grantiau atodol yn unol â Phennod 4.

(2) Os yw'r flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr cymwys wedi gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi yn flwyddyn o ailadrodd astudiaethau, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu—

(a) nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael math neu swm penodol o gymorth mewn cysylltiad â'r flwyddyn o ailadrodd astudiaethau; neu

(b) nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael unrhyw gymorth mewn cysylltiad â'r flwyddyn o ailadrodd astudiaethau.

(3) Wrth benderfynu na fyddai myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael rhyw gymorth neu unrhyw gymorth yn unol â pharagraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i amgylchiadau'r achos ac yn benodol i'r rhesymau pam y gofynnwyd i'r myfyriwr ailadrodd blwyddyn academaidd.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "blwyddyn o ailadrodd astudiaethau" yw blwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr wedi bod yn bresennol arni o'r blaen ond y mae'r sefydliad Ewropeaidd perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol iddo fod yn bresennol arni eto.

## PENNOD 1

## GRANTIAU AT FFIOEDD I FYFYRWYR CANOLFAN BOLOGNA

### Grant at ffioedd

**18.**—(1) Mae myfyriwr Canolfan Bologna yn cymhwyso i gael grant at ffioedd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd ar y cwrs cyfredol wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), swm y grant at ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw swm agregedig y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs cyfredol yn ystod y flwyddyn academaidd honno, neu fel arall yn gysylltiedig â bod yn bresennol arno.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), nid yw'r grant at ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn i fod yn fwy na 25,580 ewro.

## PENNOD 2

## GRANTIAU I FYFYRWYR COLEG EWROP

### Grant at ffioedd

**19.**—(1) Mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael grant at ffioedd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd ar y cwrs cyfredol wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), swm y grant at ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw swm agregedig y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs cyfredol yn ystod y flwyddyn academaidd honno, neu fel arall yn gysylltiedig â bod yn bresennol arno.

(3) 10,800 ewro yw uchafswm y grant at ffioedd.

### Grantiau at gostau byw a chostau eraill

**20.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd i gael y grantiau at gostau byw a chostau eraill a bennir ym mharagraffau (3) i (7) ac a gyfrifir yn unol â hwy.

(2) Nid yw myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael yr un o'r grantiau sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 2 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

(3) Mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael grant at gostau byw sy'n hafal i swm (**A** + **B**) lle—

(a) **A** yw £2,344; a

(b) mae **B** yn £48 am bob wythnos, gan gynnwys wythnos pryd y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yng Ngholeg Ewrop am lai na 5 niwrnod, pryd y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yng Ngholeg Ewrop uwchlaw 30 wythnos a 3 diwrnod;

(4) Mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael grant at fwrdd a llety o 6,000 ewro.

(5) Mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael grant i deithio adref am swm sy'n hafal i (**A** − **B**) lle—

**A** yw'r swm y mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu mai dyna gost tair siwrnai ddychwel o gyfeiriad cartref y myfyriwr i Goleg Ewrop; a

**B** yw £97.

(6) Mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael grant at deithio colegol am y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio o breswylfa'r myfyriwr, tra bydd yn bresennol yng Ngholeg Ewrop, i Goleg Ewrop.

(7) Ar yr amod bod Gweinidogion Cymru'n cytuno ymlaen llaw a chyn tynnu costau, mae myfyriwr Coleg Ewrop yn cymhwyso i gael grant at deithio ar gyfer ymchwil am y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio sydd wedi'i thynnu er mwyn cwblhau cyfnodau o ymchwil a awdurdodwyd gan Goleg Ewrop yn ystod y flwyddyn academaidd y gwneir cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

**21.** Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r grantiau a gyfrifir yn unol â rheoliad 20.

## PENNOD 3

## GRANTIAU I FYFYRWYR YN YR ATHROFA BRIFYSGOL EWROPEAIDD

### Grantiau at gostau byw a chostau eraill

**22.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd i gael y grantiau at gostau byw a chostau eraill a bennir ym mharagraffau (3) i (7) ac a gyfrifir yn unol â hwy.

(2) Nid yw myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael yr un o'r grantiau sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 2 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

(3) Mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant at gostau byw o 13,000 ewro.

(4) Mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant i deithio adref am y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai dyna gost resymol un siwrnai ddychwel o gyfeiriad cartref y myfyriwr i'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

(5) Mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant ar gyfer teithio colegol am y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio o breswylfa'r myfyriwr, tra bydd yn bresennol yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd, i'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

(6) Ar yr amod bod Gweinidogion Cymru'n cytuno ymlaen llaw a chyn tynnu costau mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant at deithio ar gyfer ymchwil am y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio sydd wedi'i thynnu er mwyn cwblhau cyfnodau o ymchwil a awdurdodwyd gan yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn academaidd y gwneir cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(7) Mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant at yswiriant meddygol am y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai dyna gost resymol yswirio'r myfyriwr yn erbyn rhwymedigaeth i dalu cost triniaeth feddygol a ddarperir y tu allan i'r Deyrnas Unedig os yw cyfnod arferol y cwrs yn fwy nag un flwyddyn academaidd.

**23.** Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r grantiau a gyfrifir o dan baragraffau (4) i (6) o reoliad 22.

## PENNOD 4

## GRANTIAU ATODOL

### Lwfans myfyrwyr anabl

**24.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael lwfans myfyrwyr anabl i helpu gyda'r gwariant ychwanegol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod rhaid i'r myfyriwr ei dynnu oherwydd anabledd sydd ganddo mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig.

(2) Nid yw myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael lwfans myfyrwyr anabl os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 2 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

### Swm y lwfans myfyrwyr anabl

**25.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), swm y lwfans myfyrwyr anabl yw'r swm y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn briodol yn unol ag amgylchiadau'r myfyriwr i fod yn gymorth at un neu ragor o fathau o wariant cymwys.

(2) Rhaid i swm y lwfans myfyrwyr anabl beidio â bod yn fwy na £5,915 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd.

(3) Y "mathau o gostau cymwys" yw —

(a) gwariant ar gynorthwyydd personol anfeddygol;

(b) gwariant ar eitemau pwysig o offer arbenigol;

(c) unrhyw wariant ychwanegol a dynnir—

(i) yn y wlad y lleolir y sefydliad perthnasol ynddi er mwyn bod yn bresennol yn y sefydliad; a

(ii) yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi at ddibenion teithio i'r sefydliad perthnasol er mwyn bod yn bresennol ar y cwrs perthnasol.

### Grant ar gyfer dibynyddion

**26.**—(1) Mae'r grant ar gyfer dibynyddion yn cynnwys yr elfennau canlynol—

(a) grant dibynyddion mewn oed; a

(b) lwfans dysgu rhieni.

(2) Nodir amodau cymhwyso ar gyfer pob elfen a'r symiau sy'n daladwy yn rheoliadau 27 i 31.

### Grant dibynyddion mewn oed

**27.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant dibynyddion mewn oed mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r grant dibynyddion mewn oed ar gael mewn perthynas â dibynnydd myfyriwr cymwys sydd naill ai—

(a) yn bartner y myfyriwr; neu

(b) yn ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr a hwnnw'n ddibynnydd nad yw ei incwm net yn fwy na £3,615.

(3) Nid yw myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael y grant sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 2 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

**28.**—(1) Mae swm y grant dibynyddion mewn oed sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 30, a'r swm sylfaenol yw—

(a) mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol, £2,515; neu

(b) pan fo'r person y mae'r myfyriwr yn gwneud cais mewn cysylltiad ag ef am grant dibynyddion mewn oed yn preswylio fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, y swm nad yw'n fwy na £2,515 ac sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

### Lwfans dysgu rhieni

**29.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso, mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig, i gael y lwfans dysgu rhieni os oes ganddo un neu fwy o blant dibynnol.

(2) Nid yw myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael y grant sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 2 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

(3) Mae swm y lwfans dysgu rhieni sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 30, a'r swm sylfaenol yw £1,435.

### Cyfrifo

**30.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, y swm sy'n daladwy mewn cysylltiad ag elfen benodol o'r grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr Coleg Ewrop neu'r myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i'w gael o dan reoliadau 27 i 29 yw swm yr elfen honno sy'n weddill ar ôl cymhwyso, hyd nes y daw i ben neu hyd nes nad oes elfen yn dal yn daladwy o dan reoliadau 27 i 29, swm sy'n hafal i (**A − B**) fel a ganlyn ac yn y drefn ganlynol—

(a) i ostwng swm sylfaenol y grant dibynyddion mewn oed os yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael yr elfen honno o dan reoliad 27; a

(b) i ostwng swm sylfaenol y lwfans dysgu rhieni os yw'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael yr elfen honno o dan reoliad 29.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), os yw **B** yn fwy nag A neu'n hafal i **A**, mae swm sylfaenol pob elfen o'r grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr yn cymhwyso i'w chael yn daladwy.

(3) Os yw (**A − B**) yn hafal i agregiad y symiau sylfaenol o elfennau'r grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w cael neu'n fwy na'r agregiad hwnnw, y swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob elfen yw dim.

(4) Mae swm y grant dibynyddion mewn oed a gyfrifir o dan baragraff (1) yn cael ei ostwng o hanner—

(a) os yw partner y myfyriwr—

(i) yn fyfyriwr cymwys; neu

(ii) yn dal dyfarniad statudol; a

(b) os cymerir dibynyddion y partner hwnnw i ystyriaeth wrth gyfrifo swm y cymorth y mae'r partner hwnnw yn cymhwyso i'w gael, neu'r taliad y mae ganddo hawlogaeth i'w gael, o dan y dyfarniad statudol.

(5) Os yw swm y lwfans dysgu rhieni a gyfrifir o dan baragraff (1) yn £0.01 neu fwy ond yn llai na £50, swm y lwfans dysgu rhieni sy'n daladwy yw £50.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn—

**A** yw agregiad incwm net pob un o ddibynyddion y myfyriwr cymwys; a

**B** yw—

(a) £1,100 os nad oes gan y myfyriwr unrhyw blant dibynnol;

(b) £3,300 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

(c) £4,405 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol;

(d) £4,405 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

(e) £5,510 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol.

**31.** Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad ag elfen benodol yn y grant ar gyfer dibynyddion a gyfrifir yn unol â rheoliadau 27 i 30.

### Dehongli

**32.**—(1) At ddibenion rheoliadau 27 i 31—

(a) ystyr "dibynnydd mewn oed" ("*adult dependant*"), mewn perthynas â myfyriwr, yw person mewn oed sy'n dibynnu ar y myfyriwr heblaw plentyn y myfyriwr, partner y myfyriwr

(gan gynnwys priod neu bartner sifil y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y myfyriwr wedi gwahanu oddi wrtho) neu gyn-bartner y myfyriwr;

(b) mae "plentyn" ("*child*") mewn perthynas â myfyriwr yn cynnwys unrhyw blentyn i bartner y myfyriwr sy'n ddibynnol ar y myfyriwr ac unrhyw blentyn y mae gan y myfyriwr gyfrifoldeb rhiant drosto sy'n ddibynnol arno;

(c) ystyr "dibynnydd" ("*dependant*"), mewn perthynas â myfyriwr, yw partner y myfyriwr, plentyn dibynnol y myfyriwr neu ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr, nad yw ym mhob achos yn fyfyriwr cymwys ac nad oes ganddo ddyfarniad statudol;

(ch) ystyr "dibynnol" ("*dependent*") yw ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf;

(d) ystyr "rhiant unigol" ("*lone parent*") yw myfyriwr nad oes ganddo bartner ac sydd â phlentyn dibynnol neu blant dibynnol;

(dd) mae i "incwm net" ("*net income*") yr ystyr a roddir ym mharagraff (2);

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (f), (ff) ac (g), ystyr "partner" ("*partner*") yw unrhyw un o'r canlynol—

(i) priod myfyriwr;

(ii) partner sifil myfyriwr;

(iii) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n briod i'r myfyriwr—

(aa) os oedd y myfyriwr hwnnw yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi; a

(bb) os dechreuodd y myfyriwr hwnnw y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000;

(iv) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n bartner sifil i'r myfyriwr—

(aa) os oedd y myfyriwr hwnnw yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi; a

(bb) os dechreuodd y myfyriwr hwnnw y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005;

(f) oni nodir fel arall, nid yw person a fyddai fel arall yn bartner o dan is-baragraff (e) i'w drin fel partner—

(i) os yw'r person hwnnw a'r myfyriwr, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi'u gwahanu; neu

(ii) os yw'r person yn byw fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n cael ei gynnal gan y myfyriwr;

(ff) at ddibenion diffinio "dibynnydd mewn oed", mae person i'w drin fel partner pe bai'r person yn bartner o dan is-baragraff (e) oni bai am y ffaith nad oedd y myfyriwr y mae'r person yn byw gydag ef yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi;

(g) at ddibenion diffinio "plentyn" a "rhiant unigol", mae person i'w drin fel partner pe bai'r person yn bartner o dan is-baragraff (e) oni bai am y dyddiad y dechreuodd y myfyriwr y cwrs dynodedig neu'r ffaith nad oedd y myfyriwr y mae'r person fel arfer yn byw gydag ef yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), incwm net dibynnydd yw incwm y dibynnydd o bob ffynhonnell am y flwyddyn academaidd o dan sylw wedi'i ostwng yn ôl swm y dreth incwm a'r cyfraniadau nawdd cymdeithasol sy'n daladwy mewn cysylltiad â hi ond gan anwybyddu—

(a) unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabledd neu analluedd sydd gan y dibynnydd;

(b) budd-dal plant sy'n daladwy o dan Ran IX o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**7**);

(c) unrhyw gymorth ariannol sy'n daladwy i'r dibynnydd gan awdurdod lleol yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adrannau 2, 3 a 4 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**8**);

(ch) unrhyw lwfans gwarcheidwad y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan adran 77 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;

(d) yn achos dibynnydd y mae plentyn sy'n derbyn gofal awdurdod lleol wedi'i fyrddio gydag ef, unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd hwnnw at ddibenion adran 23 o Ddeddf Plant 1989(**9**);

(dd) unrhyw daliadau a wneir i'r dibynnydd o dan adran 15 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 1 iddi mewn cysylltiad â pherson nad yw'n blentyn i'r dibynnydd neu unrhyw gymorth a roddir gan awdurdod lleol yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf honno; ac

(e) unrhyw gredyd treth plant y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002.

(3) Os yw myfyriwr neu bartner y myfyriwr yn gwneud unrhyw daliadau ailgylchol a oedd gynt yn cael eu gwneud gan y myfyriwr yn unol â rhwymedigaeth a ysgwyddwyd cyn blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y myfyriwr, incwm net y partner yw'r incwm net wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2) ac wedi'i ostwng yn ôl—

(a) swm sy'n hafal i'r taliadau o dan sylw am y flwyddyn academaidd, os cafodd y rhwymedigaeth, ym marn Gweinidogion Cymru, ei hysgwyddo'n rhesymol; neu

(b) y swm llai, os bydd unrhyw swm o gwbl, y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei fod yn briodol pe gallai rhwymedigaeth lai, yn eu barn hwy, fod wedi'i hysgwyddo'n rhesymol.

(4) At ddibenion paragraff (2)—

(a) os yw'r dibynnydd yn blentyn dibynnol;

(b) os yw'r flwyddyn academaidd berthnasol yn flwyddyn academaidd newydd; ac

(c) os oes taliadau'n cael eu gwneud i'r myfyriwr tuag at gynhaliaeth y plentyn;

mae'r taliadau hynny i gael eu trin fel incwm i'r plentyn.

# RHAN 5

## CYFRANIADAU

### Cyfraniad y myfyriwr

**33.**—(1) Cyfraniad myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm a gyfrifir o dan Atodlen 3, os oes unrhyw swm o gwbl.

(**7**) 1992 p. 4.
(**8**) 2002 p. 38.
(**9**) 1989 p. 41. Diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Plant 2004 (p. 31), adran 49(3).

(2) At ddibenion arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr roi o dro i dro yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen er mwyn asesu cyfraniad y myfyriwr.

**Cymhwyso cyfraniad y myfyriwr**

**34.**—(1) Rhaid i'r cyfraniad a gyfrifir yn unol â rheoliad 33 gael ei gymhwyso—

(a) yn achos myfyriwr Coleg Ewrop yn unol â rheoliad 35; a

(b) yn achos myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn unol â rheoliad 36.

**35.**—(1) Yn achos myfyriwr Coleg Ewrop, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso cyfraniad y myfyriwr—

(a) yn gyntaf, i ostwng swm y grant at gostau byw a gyfrifir o dan reoliad 20(3);

(b) yn ail—

(i) yn achos myfyriwr sy'n gymwys i gael y grant ar gyfer dibynyddion, i ostwng yn y drefn ganlynol—

(aa) swm unrhyw grant ar gyfer dibynyddion mewn oed a gyfrifir yn unol â rheoliad 30;

(bb) swm unrhyw lwfans dysgu rhieni a gyfrifir yn unol â rheoliad 30; ac

(cc) swm unrhyw grant ar gyfer bwrdd a llety a gyfrifir yn unol â rheoliad 20(4);

(ii) mewn unrhyw achos arall, i ostwng swm y grant at fwrdd a llety a gyfrifir yn unol â rheoliad 20(4);

(c) yn drydydd, i ostwng swm y grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 20(5);

(ch) yn bedwerydd, i ostwng swm y grant at deithio colegol a gyfrifir yn unol â rheoliad 20(6);

(d) yn bumed, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio a gyfrifir yn unol â rheoliad 20(7).

(2) Os yw'r cyfraniad sydd ar gael i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio yn unol â pharagraff (1)(d) yn fwy na swm y grant hwnnw a gyfrifir o dan reoliad 20(7), swm y grant hwnnw sy'n daladwy i'r myfyriwr yw dim.

**36.**—(1) Yn achos myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso cyfraniad y myfyriwr—

(a) yn gyntaf, i ostwng swm y grant at gostau byw a gyfrifir yn unol â rheoliad 22(3);

(b) yn ail—

(i) yn achos myfyriwr sy'n gymwys i gael y grant ar gyfer dibynyddion, i ostwng yn y drefn ganlynol—

(aa) swm unrhyw grant ar gyfer dibynyddion mewn oed a gyfrifir yn unol â rheoliad 30;

(bb) swm unrhyw lwfans dysgu rhieni a gyfrifir yn unol â rheoliad 30; ac

(cc) swm unrhyw grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 22(4);

(ii) mewn unrhyw achos arall, i ostwng swm y grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 22(4);

(c) yn drydydd, swm y grant ar gyfer teithio colegol a gyfrifir yn unol â rheoliad 22(5).

(ch) yn bedwerydd, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio a gyfrifir yn unol â rheoliad 22(6).

(2) Os yw'r cyfraniad sydd ar gael i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio yn unol â pharagraff (1)(ch) yn fwy na swm y grant hwnnw a gyfrifir o dan reoliad 22(6), swm y grant hwnnw sy'n daladwy i'r myfyriwr yw dim.

# RHAN 6

## TALIADAU

### Talu grant at ffioedd

**37.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â thalu'r grant at ffioedd y mae myfyriwr yn cymhwyso i'w gael hyd oni fydd cais dilys am daliad wedi dod i law oddi wrth yr awdurdod academaidd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y taliadau grant at ffioedd i'r awdurdodau academaidd yn y rhandaliadau ac ar yr adegau y maent o'r farn eu bod yn briodol.

### Talu grantiau at gostau byw a chostau eraill a grantiau atodol

**38.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu'r grantiau at gostau byw a chostau eraill a'r grantiau atodol y mae myfyriwr yn cymhwyso i'w cael yn y rhandaliadau ac ar yr adegau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(2) Os ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru dalu grant sy'n daladwy o dan reoliad 20(4) neu reoliad 22(3) i'r awdurdod academaidd perthnasol er mwyn i'r awdurdod dalu'r grant perthnasol ar eu rhan.

(3) Pan na ellir gwneud, ar sail yr wybodaeth a ddarperir gan y myfyriwr, asesiad terfynol o swm y grantiau at gostau byw a chostau eraill neu o grantiau atodol sy'n daladwy i fyfyriwr, caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau dros dro mewn cysylltiad â'r grantiau hynny hyd oni wneir yr asesiad terfynol.

(4) Os ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad lwfans myfyrwyr anabl cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r taliad hwnnw'n ddyledus mewn cysylltiad â hi.

(5) Pan fo'r amgylchiadau yn rheoliad 15(a) neu yn rheoliad 15(c) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud unrhyw daliadau cymorth i fyfyriwr ar ôl y dyddiad y mae'r myfyriwr yn peidio â bod yn bresennol ar ei gwrs onid ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny o ystyried amgylchiadau achos y myfyriwr.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud unrhyw daliadau cymorth i fyfyriwr sy'n absennol o'r cwrs—

(a) am fwy na 60 o ddiwrnodau oherwydd salwch; neu

(b) am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall,

onid ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny o ystyried amgylchiadau achos y myfyriwr.

### Gordaliadau

**39.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru adennill oddi wrth yr awdurdod academaidd unrhyw ordaliad o grant at ffioedd.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, rhaid i fyfyriwr cymwys ad-dalu unrhyw swm a dalwyd i'r myfyriwr hwnnw o dan Ran 4 ac sydd, am ba reswm bynnag, yn fwy na'r swm o gymorth y mae gan y myfyriwr hawlogaeth i'w gael o dan Ran 4.

*Jane E. Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

4 Awst 2007

ATODLEN 1 — Rheoliad 4

DIWYGIO RHEOLIADAU GRANTIAU DYSGU Y CYNULLIAD (SEFYDLIADAU EWROPEAIDD) (CYMRU) 2006

**1.** Yn rheoliad 8(4), yn lle "pharagraff (2)" rhodder "pharagraff (3)"

**2.** Yn rheoliad 21(3), yn lle "22,700 ewro" rhodder "24,100 ewro".

**3.** Yn rheoliad 25(4)(b), yn lle "12,840 ewro" rhodder "13,000 ewro".

**4.** Ym mharagraff 1(6)(a) o Ran 1 o Atodlen 1, yn lle "berson hunan-gyflogedig y Swistir" rhodder "berson cyflogedig Swisaidd y ffin".

ATODLEN 2 — Rheoliad 10

MYFYRWYR CYMWYS

# RHAN 1

**Dehongli**

**1.**—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*"), oni nodir yn wahanol—

(a) mewn perthynas â gweithiwr y ffin o'r AEE, gweithiwr mudol o'r AEE, person hunangyflogedig y ffin o'r AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE yw—

(i) ei briod neu ei bartner sifil;

(ii) ei blentyn neu blentyn ei briod neu ei bartner sifil; neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;

(b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig Swisaidd y ffin, person hunangyflogedig Swisaidd y ffin neu berson hunangyflogedig Swisaidd yw—

(i) ei briod neu ei bartner sifil; neu

(ii) ei blentyn neu blentyn ei briod neu ei bartner sifil;

(c) mewn perthynas â gwladolyn y GE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38 yw—

(i) ei briod neu ei bartner sifil; neu

(ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—

(aa) sydd o dan 21 mlwydd oed;

(bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;

(ch) mewn perthynas â gwladolyn y GE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38 yw—

(i) ei briod neu ei bartner sifil;

(ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—

(aa) sydd o dan 21 mlwydd oed; neu

(bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;

(d) mewn perthynas â gwladolyn y Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9—

(i) ei briod neu ei bartner sifil; neu

(ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—

(aa) sydd o dan 21 mlwydd oed; neu

(bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;

ystyr "Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area*") yw'r ardal a gaiff ei ffurfio gan y Gymuned Ewropeaidd, Gweriniaeth Gwlad yr Iâ, Teyrnas Norwy a Thywysogaeth Liechtenstein;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*Directive 2004/38*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswylio'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr "Cytundeb y Swistir" ("*Swiss Agreement*") yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a'r Conffederasiwn Swisaidd, o'r rhan arall, ar Rydd Symudiad Personau, a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(**10**) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr "Cytundeb yr AEE" ("*EEA Agreement*") yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992(**11**) fel y'i haddaswyd gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993(**12**);

ystyr "gweithiwr" ("*worker*") yw gweithiwr o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu ystyr Cytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

mae i "gweithiwr y ffin o'r AEE" ("*EEA frontier worker*") yr ystyr a roddir gan is-baragraff (3);

ystyr "gweithiwr mudol o'r AEE" ("*EEA migrant worker*") yw un o wladolion yr AEE sy'n weithiwr neu, yn achos un o wladolion yr AEE sy'n gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud, a oedd yn weithiwr, ac eithrio yn un o weithwyr y ffin o'r AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*") yw gwladolyn Twrcaidd a oedd ar y dyddiad perthnasol—

(a) yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd; a

(b) yn gyfreithiol gyflogedig, neu a oedd wedi bod yn gyfreithiol gyflogedig, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn y Deyrnas Unedig" ("*United Kingdom national*") yw person sydd i'w drin fel un o wladolion y Deyrnas Unedig at ddibenion Cytuniadau'r Gymuned;

ystyr "Gwladolyn y GE" ("*EC national*") yw un o wladolion un o Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd;

ystyr "gwladolyn yr AEE" ("*EEA national*") yw un o wladolion un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig;

ystyr "Gwladwriaeth yr AEE" ("*EEA State*") yw un o Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

(**10**) Gorch. 4904.
(**11**) Gorch. 2073.
(**12**) Gorch. 2183.

ystyr "hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent residence*") yw hawl sy'n deillio o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person cyflogedig Swisaidd" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio'n berson cyflogedig Swisaidd y ffin, yn y Deyrnas Unedig;

mae i "person cyflogedig Swisaidd y ffin" ("*Swiss frontier employed person*") yr ystyr a roddir yn is-baragraff (4);

ystyr "person hunangyflogedig" ("*self-employed person*")—

(a) mewn perthynas â gwladolyn yr AEE, yw person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu

(b) mewn perthynas â dinesydd Swisaidd, yw person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person hunangyflogedig o'r AEE" ("*EEA self-employed person*") yw un o wladolion yr AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio'n berson hunangyflogedig y ffin o'r AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd neu, yn achos person sy'n gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud, a oedd yn berson hunangyflogedig, ac eithrio'n berson hunangyflogedig Swisaidd y ffin, yn y Deyrnas Unedig;

mae i "person hunangyflogedig Swisaidd y ffin" ("*Swiss frontier self-employed person*") yr ystyr a roddir yn is-baragraff (5);

mae i "person hunangyflogedig y ffin o'r AEE" ("*EEA frontier self-employed person*") yr ystyr a roddir gan is-baragraff (2);

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "*settled*" yn adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**13**).

(2) ystyr "person hunangyflogedig y ffin o'r AEE" ("*EEA frontier self-employed person*") yw un o wladolion yr AEE—

(a) sy'n berson hunangyflogedig yng Nghymru; a

(b) sy'n preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(3) ystyr "gweithiwr y ffin o'r AEE" ("*EEA frontier worker*") yw un o wladolion yr AEE—

(a) sy'n weithiwr yng Nghymru; a

(b) sy'n preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(4) ystyr "person cyflogedig Swisaidd y ffin" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn Swisaidd—

(a) sy'n berson cyflogedig yng Nghymru; a

(b) sy'n preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(5) ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd y ffin" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd—

(**13**) 1971 p.77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p.61).

(a) sy'n berson hunangyflogedig yng Nghymru; a

(b) sy'n preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(6) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal dros blentyn a rhaid dehongli "plentyn" ("*child*") yn unol â hynny.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person i'w drin fel petai'n preswylio fel arfer yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio neu yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn ei ffurfio pe byddai wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith—

(a) bod y person;

(b) bod ei briod neu ei bartner sifil;

(c) bod ei riant; neu

(ch) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinell esgynnol, bod ei blentyn neu briod neu bartner sifil ei blentyn,

yn cael ei gyflogi neu wedi bod yn cael ei gyflogi dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw.

(8) At ddibenion is-baragraff (7), mae gwaith dros dro y tu allan i Gymru, i'r Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, i diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swisdir yn ei ffurfio neu i diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn ei ffurfio yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o lynges, o fyddin neu o awyrlu rheolaidd y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o'r lluoedd hynny y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd un o Wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o'r lluoedd hynny y tu allan i'r diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swisdir yn ei ffurfio; a

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o'r lluoedd hynny y tu allan i'r diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn ei ffurfio.

# RHAN 2

## Categorïau

### Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

**2.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol ac eithrio drwy fod wedi caffael yr hawl i breswylio'n barhaol;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd; ac

(ch) nad oedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) wedi bod yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (ch) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(7).

**3.** Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol oherwydd ei fod wedi caffael yr hawl i breswylio'n barhaol;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) a oedd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol; ac

(ch) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaeth arferol y cyfeirir ati ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser, yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

**Ffoaduriaid a phersonau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros**

**4.**—(1) Person—

(a) sy'n ffoadur;

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ei gydnabod yn ffoadur; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches;

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac

(ch) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu bartner sifil i ffoadur;

(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;

(c) a oedd o dan 18 mlwydd oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches;

(ch) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a

(d) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol.

**5.**—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol; ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw ei gais am loches;

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol; ac

(ch) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ei gais am loches, yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;

(c) a oedd o dan 18 mlwydd oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ei gais am loches;

(ch) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol; a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

**Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd**

**6.**—(1) Person—

(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol—

(i) yn weithiwr mudol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig o'r AEE;

(ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);

(iv) yn weithiwr y ffin o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig y ffin o'r AEE;

(v) yn berson cyflogedig Swisaidd y ffin neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd y ffin; neu

(vi) yn aelod o deulu person ym mharagraff (iv) neu (v);

(b) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

**7.** Person—

(a) sydd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol; ac

(c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar rydd symudiad gweithwyr(**14**), fel y'i hymestynnwyd gan Gytundeb yr AEE.

**Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio mewn man arall**

**8.**—(1) Person—

(**14**) OJ Rhif L257, 19.10.1968, t.2 (OJ/SE1968 (ii) t.475).

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;

(b) sydd wedi gadael y Deyrnas Unedig ac wedi arfer hawl i breswylio ar ôl iddo fod wedi bod wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(ch) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol; a

(d) a oedd, mewn achos lle yr oedd ei breswyliaeth arferol y cyfeirir ati ym mharagraff (b) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion derbyn addysg lawnamser, yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (ch).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw'n wladolyn y Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn y Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson a chanddo hawl i breswylio'n barhaol ac sydd ymhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswylio'n barhaol, os yw'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio ac y mae'n un o'i gwladolion neu y mae'r person y mae'n aelod o'i deulu yn un o'i gwladolion.

### Gwladolion y GE

**9.**—(1) Person—

(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol, naill ai—

(i) yn un o wladolion y GE; neu

(ii) yn aelod o deulu person o'r fath;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol; ac

(ch) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad yw wedi preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (ch) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn unol â pharagraff 1(7).

**10.**—(1) Person—

(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol, yn un o wladolion y GE ac eithrio'n un o wladolion y Deyrnas Unedig;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn y dyddiad perthnasol; ac

(ch) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaeth arferol y cyfeirir ati ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser, yn preswylio fel arfer

yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

**Plant gwladolion Swisaidd**

**11.** Person—

(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol, yn blentyn i wladolyn Swisaidd â'r hawlogaeth i gael cymorth gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(ch) mewn achos lle y bu ei breswyliaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser, person oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

**Plant gweithwyr Twrcaidd**

**12.** Person—

(a) a oedd yn blentyn i weithiwr Twrcaidd ar y dyddiad perthnasol;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar y diwrnod perthnasol; ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

ATODLEN 3 Rheoliad 33

CYFRANIADAU'R MYFYRIWR

# RHAN 1

**Dehongli**

**1.**—(1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "Aelod-wladwriaeth" ("*Member State*") yw un o Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis y mae incwm person, y mae ei incwm gweddilliol yn cael ei gyfrifo o dan ddarpariaethau Rhan 2 o'r Atodlen hon, yn cael ei gyfrifo mewn cysylltiad ag ef at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm sy'n gymwys iddo;

ystyr "blwyddyn ariannol flaenorol" ("*preceding financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n union o flaen y flwyddyn berthnasol;

ystyr "blwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw'r flwyddyn academaidd y mae incwm yr aelwyd i'w asesu mewn cysylltiad â hi;

mae i "Gwladwriaeth yr AEE" ("*EEA State*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 2;

ystyr "incwm gweddilliol" ("*residual income*") yw incwm trethadwy ar ôl cymhwyso paragraff 3 (yn achos myfyriwr), paragraff 4 (yn achos rhiant myfyriwr Coleg Ewrop), paragraff 5 (yn achos partner myfyriwr) a pharagraff 6 (yn achos partner rhiant myfyriwr Coleg Ewrop);

ystyr "incwm trethadwy" ("*taxable income*"), mewn perthynas â pharagraff 3, mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y gwneir cais am gymorth ar ei chyfer ac, mewn perthynas â pharagraff 4, (yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3), (4) a (5) o baragraff 4) mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol, yw incwm trethadwy person o bob ffynhonnell wedi'i gyfrifo fel pe bai at ddibenion—

(a) y Deddfau Treth Incwm;

(b) deddfwriaeth treth incwm un o Aelod-wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir sy'n gymwys i incwm y person;

(c) os yw deddfwriaeth mwy nag un o Aelod-wladwriaethau'r AEE neu o un o Aelod-wladwriaethau'r AEE a'r Swistir yn gymwys i'r cyfnod, y ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y bydd y person yn talu'r swm mwyaf o dreth oddi tani yn y cyfnod hwnnw (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 4);

mae i "incwm yr aelwyd" ("*household income*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 2;

ystyr "myfyriwr" ("*student*") yw myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn ôl y digwydd;

mae i "myfyriwr cymwys annibynnol" ("*independent eligible student*") yr ystyr a roddir yn is-baragraff (2);

ystyr "myfyriwr newydd" ("*new student*") yw myfyriwr Coleg Ewrop sy'n cychwyn ar gwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2004;

ystyr "myfyriwr presennol" ("*existing student*") yw myfyriwr Coleg Ewrop nad yw'n fyfyriwr newydd;

ystyr "myfyriwr sy'n rhiant" ("*parent student*") yw myfyriwr Coleg Ewrop sy'n rhiant i fyfyriwr Coleg Ewrop;

ystyr "partner" ("*partner*") mewn perthynas â myfyriwr yw unrhyw un o'r canlynol —

(i) priod y myfyriwr;

(ii) partner sifil y myfyriwr;

(iii) person sydd fel arfer yn byw gyda'r myfyriwr fel pe bai'n briod â'r myfyriwr os yw'r myfyriwr yn dod o fewn is-baragraff (2)(a) a'i fod yn cychwyn ar y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000;

(iv) person sydd fel arfer yn byw gyda'r myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n bartner sifil i'r myfyriwr os yw'r myfyriwr yn dod o fewn is-baragraff (2)(a) a'i fod yn cychwyn ar y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005;

ystyr "partner" ("*partner*") mewn perthynas â rhiant myfyriwr Coleg Ewrop yw unrhyw un o'r canlynol ac eithrio rhiant arall i'r myfyriwr Coleg Ewrop—

(a) priod rhiant y myfyriwr Coleg Ewrop;

(b) partner sifil rhiant y myfyriwr Coleg Ewrop;

(c) person sydd fel arfer yn byw gyda rhiant y myfyriwr Coleg Ewrop fel pe bai'n briod â'r rhiant;

(ch) person sydd fel arfer yn byw gyda rhiant y myfyriwr Coleg Ewrop fel pe bai'n bartner sifil i'r rhiant;

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw rhiant naturiol neu riant mabwysiadol a dehonglir "plentyn" ("*child*"), "mam" ("*mother*") a "tad" ("*father*") yn unol â hynny.

(2) ystyr "myfyriwr cymwys annibynnol" ("*independent eligible student*") yw myfyriwr Coleg Ewrop—

(a) os yw'n 25 mlwydd oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'n briod neu mewn partneriaeth sifil cyn dechrau'r flwyddyn berthnasol, p'un a yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn dal i fod ai peidio;

(c) os nad oes ganddo riant sy'n dal yn fyw;

(ch) os bydd Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni na ellir dod o hyd i'r naill na'r llall o'i rieni neu nad yw'n rhesymol ymarferol i ddod i gysylltiad â'r naill neu'r llall;

(d) os nad yw wedi cysylltu â'r naill na'r llall o'i rieni am y cyfnod o un flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn berthnasol neu, ym marn Gweinidogion Cymru, os yw'n gallu dangos ar seiliau eraill ei fod wedi ymddieithrio oddi wrth ei rieni mewn ffordd lle nad oes modd cymodi;

(dd) os oes llety wedi'i ddarparu ar ei gyfer gan unrhyw berson cyfreithiol nad yw'n rhiant i'r myfyriwr, neu os yw wedi bod, yn unol â gorchymyn gan lys cymwys, o dan warchodaeth neu ofal unrhyw berson cyfreithiol nad yw'n rhiant i'r myfyriwr, a hynny drwy gydol unrhyw gyfnod o dri mis sy'n diweddu ar neu ar ôl y dyddiad y daw'n 16 oed a chyn diwrnod cyntaf ei gwrs ("y cyfnod perthnasol") (ar yr amod nad yw mewn gwirionedd wedi bod o dan awdurdod neu reolaeth ei rieni ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod perthnasol);

(e) os yw ei rieni'n preswylio y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd a bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni naill ai—

(i) y byddai asesu incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at eu hincwm gweddilliol yn rhoi'r rhieni hynny mewn perygl; neu

(ii) na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rhieni hynny, o ganlyniad i gyfrifo unrhyw gyfraniad o dan baragraff 7, anfon unrhyw arian perthnasol i'r Deyrnas Unedig;

(f) os yw paragraff 4(9) yn gymwys a bod y rhiant mwyaf priodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwnnw wedi marw (ni waeth a oes gan y rhiant o dan sylw bartner ai peidio);

(ff) os yw'n aelod o urdd grefyddol sy'n preswylio mewn t ŷ sy'n perthyn i'r urdd honno;

(g) os bod ganddo, ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol, ofal am berson o dan 18 mlwydd oed; neu

(ng) os yw wedi ei gynnal ei hun o'i enillion am unrhyw gyfnod neu gyfnodau yn diweddu cyn blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod agregiad y cyfnodau hynny heb fod yn llai na thair blynedd, a'i fod at ddibenion y paragraff hwn i'w drin fel pe bai'n cynnal ei hun o'i enillion yn ystod unrhyw gyfnod—

(i) pan oedd yn cyfranogi o drefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r di-waith o dan unrhyw gynllun a gâi ei weithredu, ei noddi neu ei gyllido gan unrhyw awdurdod neu asiantaeth yn perthyn i'r wladwriaeth, p'un ai awdurdod neu asiantaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol ("awdurdod perthnasol") ydoedd;

(ii) pan oedd yn derbyn budd-dal a oedd yn daladwy gan unrhyw awdurdod perthnasol mewn cysylltiad â pherson sydd ar gael i'w gyflogi ond sy'n ddi-waith;

(iii) pan oedd ar gael i'w gyflogi a phan fu iddo gydymffurfio ag unrhyw ofyniad cofrestru a osodwyd gan awdurdod perthnasol fel amod o hawlogaeth ar gyfer cyfranogi o drefniadau ar gyfer hyfforddiant neu ar gyfer derbyn budd-daliadau;

(iv) pan oedd ganddo Efrydiaeth y Wladwriaeth neu ddyfarniad cyfatebol arall; neu

(v) pan oedd yn derbyn unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delid gan unrhyw berson oherwydd anabledd sydd ganddo, neu oherwydd gwelyfod, anaf neu salwch.

(3) Mae unrhyw fyfyriwr Coleg Ewrop sy'n cymhwyso i fod yn fyfyriwr cymwys annibynnol o dan is-baragraff (2)(g) mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs dynodedig yn cadw'r statws hwnnw tra pery'r cyfnod cymhwystra.

# RHAN 2

## Cyfrifo cyfraniad

### Incwm yr aelwyd

**2.**—(1) Mae swm cyfraniad myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa yn dibynnu ar incwm yr aelwyd.

(2) Incwm yr aelwyd—

(a) yn achos myfyriwr Coleg Ewrop nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol, yw agregiad o incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys ac incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr Coleg Ewrop (yn ddarostyngedig i baragraff 4(9)) ac—

(i) yn achos myfyriwr newydd a gychwynnodd ar y cwrs cyn 1 Medi 2005, yw incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr (ac eithrio person sy'n byw fel arfer gyda rhiant myfyriwr cymwys fel pe bai'n bartner sifil i'r rhiant) ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 4(9); neu

(ii) yn achos myfyriwr newydd a gychwynnodd ar y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005, yw incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr (ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 4(9));

(b) yn achos—

(i) myfyriwr cymwys annibynnol a chanddo bartner, neu

(ii) myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd a chanddo bartner,

yw agregiad o incwm gweddilliol y myfyriwr ac incwm gweddilliol partner y myfyriwr hwnnw (yn ddarostyngedig i is-baragraff (5)); neu

(c) yn achos—

(i) myfyriwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner, neu

(ii) myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd nad oes ganddo bartner,

yw incwm gweddilliol y myfyriwr hwnnw.

(3) Wrth ganfod beth yw incwm yr aelwyd mae swm a gyfrifir yn unol ag is-baragraff (4) i'w ddidynnu—

(a) yn achos myfyriwr Coleg Ewrop—

(i) am bob plentyn sy'n ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr neu ar ei bartner; neu

(ii) am bob plentyn ac eithrio'r myfyriwr Coleg Ewrop sy'n ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar riant y myfyriwr Coleg Ewrop neu ar bartner rhiant y myfyriwr y mae ei incwm gweddilliol yn cael ei gymryd i ystyriaeth; a

(b) yn achos myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd, am bob plentyn sy'n ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr neu ar ei bartner.

(4) Y swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (3) yw £1,075.

(5) At ddiben cyfrifo'r cyfraniad sy'n daladwy mewn cysylltiad â myfyriwr sy'n rhiant, nid yw incwm gweddilliol partner y myfyriwr sy'n rhiant i'w agregu o dan is-baragraff (2)(b) yn achos myfyriwr sy'n rhiant y mae gan ei blentyn neu blentyn ei bartner ddyfarndal y cyfrifir incwm yr aelwyd mewn cysylltiad ag ef drwy gyfeirio at incwm gweddilliol y myfyriwr sy'n rhiant neu bartner y myfyriwr sy'n rhiant neu'r ddau.

### Cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr

**3.**—(1) Er mwyn canfod beth yw incwm gweddilliol myfyriwr, didynnir o'i incwm trethadwy (onid yw eisoes wedi'i ddidynnu wrth ganfod beth yw ei incwm trethadwy) agregiad unrhyw symiau sy'n dod o fewn unrhyw un o'r is-baragraffau canlynol—

(a) unrhyw gydnabyddiaeth am waith a wneir yn ystod unrhyw flwyddyn academaidd o gwrs y myfyriwr, ar yr amod nad yw'r gydnabyddiaeth honno'n cynnwys unrhyw symiau a delir mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod pan fo ganddo ganiatâd i fod yn absennol neu pan fo wedi'i ryddhau o'i ddyletswyddau arferol er mwyn bod yn bresennol ar y cwrs hwnnw;

(b) swm gros unrhyw bremiwm neu swm arall a delir gan y myfyriwr mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bensiwn sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef o dan adran 273, 619 neu 639 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988(**15**) neu o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004(**16**), neu pan fo incwm y myfyriwr yn cael ei gyfrifo at ddiben deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth gyfatebol i ddarpariaeth y Deddfau Treth Incwm.

(2) Pan fo'r myfyriwr yn cael incwm mewn arian cyfredol ac eithrio sterling, gwerth yr incwm hwn at ddiben y paragraff hwn—

(a) os yw'r myfyriwr yn prynu sterling â'r incwm, yw swm y sterling a gaiff y myfyriwr felly; neu

(b) fel arall, yw gwerth y sterling y byddai'r incwm yn ei brynu gan ddefnyddio'r gyfradd ar gyfer y mis y daw i law, sef cyfradd a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol(**17**).

### Cyfrifo incwm gweddilliol rhiant

**4.**—(1) At ddibenion canfod beth yw incwm trethadwy rhiant myfyriwr, nid yw unrhyw ddidyniadau sydd i'w gwneud neu esemptiadau a ganiateir—

(a) ar ffurf rhyddhadau personol y darperir ar eu cyfer ym Mhennod 1 o Ran VII o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988 neu, os cyfrifir yr incwm at ddibenion deddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir, ar ffurf swm gros unrhyw bremiwm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef pe bai'r ddeddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth gyfatebol i ddarpariaeth y Deddfau Treth Incwm;

(b) yn unol ag unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol, na chaiff taliadau, a fyddent fel arall, o dan gyfraith y Deyrnas Unedig, yn rhan o incwm person, eu trin felly oddi tano neu oddi tani; neu

(c) o dan is-baragraff (2)

i'w gwneud na'u caniatáu.

(**15**) 1988 p. 1.
(**16**) 2004 p. 12.
(**17**) "Financial Statistics" (ISSN 0015-203X).

(2) Er mwyn canfod beth yw incwm gweddilliol rhiant, didynnir o'r incwm trethadwy a ganfyddir o dan is-baragraff (1) agregiad unrhyw symiau sy'n dod o fewn unrhyw un o'r is-baragraffau canlynol—

(a) swm gros unrhyw bremiwm neu swm arall a delir gan y myfyriwr mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bensiwn sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef o dan adran 273, 619 neu 639 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988 neu o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004, neu os cyfrifir incwm y myfyriwr at ddiben deddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef pe byddai'r ddeddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth gyfatebol i ddarpariaeth y Deddfau Treth Incwm;

(b) mewn unrhyw achos lle y cyfrifir incwm yn unol ag is-baragraff (6) unrhyw symiau sy'n gyfwerth â'r didyniad a grybwyllir ym mharagraff (a), ar yr amod nad yw unrhyw symiau a ddidynnir felly i fod yn fwy na'r didyniadau a wneid os byddai'r cyfan o incwm rhiant y myfyriwr mewn gwirionedd yn incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm; ac

(c) yn achos myfyriwr sy'n rhiant neu riant myfyriwr y mae ganddo ddyfarniad statudol, £1,075.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod incwm y rhiant yn y flwyddyn ariannol yn dechrau yn union cyn y flwyddyn berthnasol ("blwyddyn ariannol gyfredol"), o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debygol o beidio â bod yn fwy nag 85 y cant o werth sterling ei incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol, caiff Gweinidogion Cymru, at ddiben galluogi'r myfyriwr i fod yn bresennol ar y cwrs heb ddioddef caledi, gadarnhau beth yw incwm yr aelwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod incwm y rhiant mewn unrhyw flwyddyn ariannol, o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debygol o beidio â bod, ac yn debygol o barhau i beidio â bod ar ôl y flwyddyn honno, yn fwy nag 85 y cant o werth sterling ei incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol, caiff Gweinidogion Cymru, at ddiben galluogi'r myfyriwr i fod yn bresennol ar y cwrs heb ddioddef caledi, gadarnhau beth yw incwm yr aelwyd ar gyfer blwyddyn academaidd cwrs y myfyriwr y digwyddodd y digwyddiad ynddi drwy gymryd fel incwm gweddilliol y rhiant gyfartaledd ei incwm gweddilliol ar gyfer pob un o'r blynyddoedd ariannol y mae'r flwyddyn academaidd honno'n dod oddi mewn iddynt.

(5) Os yw rhiant y myfyriwr yn bodloni Gweinidogion Cymru fod ei incwm yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf o elw busnes y mae'n ei rhedeg neu broffesiwn y mae'n ei ddilyn, yna mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon o'r Atodlen at flwyddyn ariannol flaenorol i'w ddarllen fel cyfeiriad at y cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n diweddu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol flaenorol ac y cedwir cyfrifon mewn cysylltiad ag ef sy'n gysylltiedig â'r busnes neu'r proffesiwn hwnnw.

(6) Os yw rhiant myfyriwr yn derbyn unrhyw incwm nad yw'n rhan o incwm y rhiant hwnnw at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddibenion deddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir dim ond oherwydd—

(a) nad yw'r rhiant yn preswylio, yn preswylio fel arfer neu wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig, neu os cyfrifir ei incwm fel pe bai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir, nad yw'n preswylio felly, yn preswylio fel arfer felly, neu wedi ymgartrefu felly yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE neu yn y Swistir;

(b) nad yw'r incwm yn deillio yn y Deyrnas Unedig, neu os cyfrifir incwm y rhiant at ddibenion deddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir, nad yw'n deillio yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE neu yn y Swistir; neu

(c) bod yr incwm yn deillio o swyddfa, o wasanaeth neu o gyflogaeth, a bod incwm o'r rhain yn esempt o dreth yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth,

mae ei incwm trethadwy at ddiben yr Atodlen hon i'w gyfrifo fel pe bai'r incwm o dan yr is-baragraff hwn yn rhan o'i incwm at ddiben y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir, yn ôl y digwydd.

(7) Os yw incwm rhiant y myfyriwr yn cael ei gyfrifo fel pe bai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm un o Wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir, mae i'w gyfrifo o dan ddarpariaethau'r Atodlen hon yn arian cyfredol y Wladwriaeth honno yn yr AEE neu'r Swistir ac incwm rhiant y myfyriwr at ddibenion yr Atodlen hon yw gwerth sterling yr incwm hwnnw a ganfyddir yn unol â'r gyfradd ar gyfer y mis y mae diwrnod olaf y flwyddyn ariannol o dan sylw yn dod oddi mewn iddo, sef y gyfradd fel y'i cyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

(8) Os bydd un o rieni'r myfyriwr yn marw naill ai cyn neu yn ystod y flwyddyn berthnasol a bod incwm y rhiant hwnnw wedi'i gymryd i ystyriaeth neu y byddai'n cael ei gymryd i ystyriaeth at ddiben canfod incwm yr aelwyd, yna—

(a) os bydd y rhiant yn marw cyn y flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd i'w ganfod drwy gyfeirio at incwm y rhiant sy'n goroesi; neu

(b) os bydd y rhiant yn marw yn ystod y flwyddyn berthnasol, ystyrir mai agregiad o'r canlynol yw incwm yr aelwyd—

(i) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir drwy gyfeirio at incwm y ddau riant, sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol pan oedd y ddau riant yn fyw; a

(ii) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir drwy gyfeirio at incwm y rhiant sy'n goroesi, sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol sy'n weddill ar ôl marw'r rhiant arall.

(9) Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bod y rhieni wedi bod ar wahân drwy gydol y flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd i'w ganfod drwy gyfeirio at incwm pa riant bynnag sydd fwyaf priodol o dan yr amgylchiadau ym marn Gweinidogion Cymru.

(10) Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bod y rhieni wedi gwahanu yn ystod y flwyddyn berthnasol, canfyddir incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at agregiad o'r canlynol—

(a) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir yn unol ag is-baragraff (9), sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol pan oedd y rhieni wedi gwahanu; a

(b) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir fel arall mewn cysylltiad â gweddill y flwyddyn berthnasol.

**Cyfrifo incwm gweddilliol partner y myfyriwr**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (3) a (4) o'r paragraff hwn a heblaw am is-baragraffau (8), (9) a (10) o baragraff 4, mae incwm partner myfyriwr i'w ganfod yn unol â pharagraff 4, ac mae cyfeiriad at y rhiant i'w ddehongli fel cyfeiriadau at bartner y myfyriwr.

(2) Pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bod y myfyriwr a'i bartner wedi bod ar wahân drwy gydol y flwyddyn berthnasol, ni chymerir i ystyriaeth incwm y partner wrth ganfod beth yw incwm yr aelwyd.

(3) Pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bod y myfyriwr a'i bartner wedi gwahanu yn ystod y flwyddyn berthnasol, canfyddir incwm y partner drwy gyfeirio at ei incwm o dan is-baragraff (1) wedi'i rannu gan bum-deg dau a'i luosi gan nifer yr wythnosau llawn yn y flwyddyn berthnasol y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu mewn cysylltiad â hwy fod y myfyriwr a'i bartner heb fod ar wahân.

(4) Os oes gan fyfyriwr fwy nag un partner mewn unrhyw flwyddyn academaidd, mae darpariaethau'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob un ohonynt.

**Cyfrifo incwm gweddilliol partner rhiant**

**6.** Mae incwm partner rhiant myfyriwr newydd y mae ei incwm yn rhan o incwm yr aelwyd yn rhinwedd paragraff 2(2)(a) i'w ganfod yn unol â pharagraff 5, ac mae cyfeiriadau at bartner y myfyriwr i'w dehongli fel cyfeiriadau at bartner rhiant y myfyriwr newydd, ac mae cyfeiriadau at y myfyriwr i'w dehongli fel cyfeiriadau at riant y myfyriwr.

**Cyfrifo cyfraniad**

**7.**—(1) Mae cyfraniad myfyriwr i'w gyfrifo yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mewn perthynas â myfyriwr Coleg Ewrop nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol, myfyriwr Coleg Ewrop sy'n fyfyriwr cymwys annibynnol a chanddo bartner a myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd a chanddo bartner, y cyfraniad yw—

(a) os £23,100 neu fwy yw incwm yr aelwyd, £45 gyda £1 yn cael ei hychwanegu am bob un swm llawn o £9.50 uwchben incwm aelwyd o £23,100; a

(b) mewn unrhyw achos pan fo incwm yr aelwyd yn llai na £23,100, dim.

(3) Mewn perthynas â myfyriwr Coleg Ewrop sy'n fyfyriwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner a myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd nad oes ganddo bartner, y cyfraniad yw

(a) os £10,755 neu fwy yw incwm yr aelwyd, £45 gyda £1 yn cael ei hychwanegu am bob un swm llawn o £9.50 uwchben incwm aelwyd o £10,755; a

(b) os yw incwm yr aelwyd yn llai na £10,755, dim.

(4) Nid yw swm y cyfraniad i fod yn fwy na £7,610 os cyfrifir y cyfraniad o dan is-baragraff (2) neu (3).

(5) Os yw is-baragraff (6) yn gymwys, nid yw agregiad y cyfraniadau a gyfrifir- o dan is-baragraff (2) neu (3) i fod yn fwy—

(i) na £7,610; neu

(ii) na'r cyfraniad a fyddai'n daladwy pe na bai ond gan un myfyriwr ddyfarniad.

(6) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys os incwm gweddilliol y canlynol yw incwm yr aelwyd—

(a) dau neu fwy o fyfyrwyr Coleg Ewrop mewn cysylltiad â'r un incwm o dan baragraff 4 neu, os cymerir i ystyriaeth incwm gweddilliol partner y rhiant perthnasol, o dan baragraffau 4 a 6; neu

(b) myfyriwr cymwys annibynnol a'i bartner pan fo gan y ddau ddyfarniad statudol.

**Rhannu cyfraniadau**

**8.**—(1) Os yw cyfraniad yn daladwy o dan baragraff 7 uchod a bod un neu fwy o'r amodau yn is-baragraff (2) wedi ei fodloni neu eu bodloni, swm y cyfraniad sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r myfyriwr Coleg Ewrop fydd y swm y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn deg o ystyried—

(a) cymhwyso paragraff 7 i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr presennol Coleg Ewrop yn y drefn honno; a

(b) amgylchiadau arbennig y myfyriwr Coleg Ewrop.

(2) Y canlynol yw'r amodau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod—

(a) mae gan fwy nag un o blant rhieni'r myfyriwr Coleg Ewrop ddyfarniad statudol;

(b) mae gan riant y myfyriwr Coleg Ewrop ddyfarniad statudol;

(c) mae gan bartner rhiant y myfyriwr Coleg Ewrop ddyfarniad statudol;

(ch) mae gan bartner y myfyriwr Coleg Ewrop ddyfarniad statudol.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006").

Mae Rheoliadau 2006 yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yng Nghanolfan Bologna, Coleg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006. Mae Rheoliadau 2006 yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr penodol sy'n dilyn cyrsiau yn y sefydliadau hyn mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ond cyn 1 Medi 2006.

Mae Rheoliadau 2006 yn gymwys o ran Cymru.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 21 o Reoliadau 2006 er mwyn cynyddu uchafswm y grant ar gyfer ffioedd sy'n daladwy i fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau dynodedig yng Nghanolfan Bologna o 22,700 ewro i 24,100 ewro. Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 25(4)(b) o Reoliadau 2006 er mwyn cynyddu swm y grant ar gyfer costau byw sy'n daladwy i fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau dynodedig yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd o 12,840 ewro i 13,000 ewro.

Mae rheoliadau 3, 4 a 7 yn cywiro gwallau teipograffyddol a gwallau drafftio yn Rheoliadau 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau dynodedig ym maes addysg uwch yng Nghanolfan Bologna, Coleg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007.

Mae grant at ffioedd ar gael ar gyfer un myfyriwr cymwys yng Nghanolfan Bologna.

Mae grant at ffioedd, grantiau at gostau byw a chostau eraill, lwfans myfyrwyr anabl a grant ar gyfer dibynyddion ar gael ar gyfer hyd at ddau fyfyriwr cymwys yng Ngholeg Ewrop.

Mae grantiau at gostau byw a chostau eraill, lwfans myfyrwyr anabl a grant ar gyfer dibynyddion ar gael ar gyfer un myfyriwr cymwys yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n disgrifio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y grantiau, y weithdrefn ar gyfer gwneud cais a'r dull o gyfrifo swm y grant sy'n daladwy. Mae'r Rheoliadau yn disgrifio hefyd y trefniadau ar gyfer talu'r grantiau ac adennill unrhyw ordaliadau.

Gwneir darpariaeth hefyd yn y Rheoliadau hyn i gydymffurfio ag erthygl 9 o Benderfyniad Rhif 1/80 Cyngor y Gymdeithas dyddiedig 19 Medi 1980 ar ddatblygiad y Gymdeithas rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Thwrci.

Crewyd Cyngor y Gymdeithas drwy gytundeb a sefydlodd gymdeithas rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Thwrci ac a lofnodwyd yn Ankara ar 12 Medi 1963 gan Weriniaeth Twrci ar y naill law ac Aelod-wladwriaethau'r CEE a'r Gymuned ar y llall. Cafodd y cytundeb ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gadarnhau ar ran y Gymuned gan Benderfyniad y Cyngor 64/732/CEE dyddiedig 23 Rhagfyr 1963 (OJ 1973 p. 113 t. 1).

Mae Erthygl 9 o Benderfyniad Rhif 1/80 Cyngor y Gymdeithas dyddiedig 19 Medi 1980 ar ddatblygu'r gymdeithas yn darparu bod rhaid derbyn plant Twrcaidd sy'n preswylio'n gyfreithlon mewn Aelod-wladwriaeth gyda'u rhieni sydd, neu sydd wedi bod, yn cael eu cyflogi'n gyfreithlon yn yr Aelod-wladwriaeth honno, i gyrsiau addysg gyffredinol, prentisiaeth a hyfforddiant galwedigaethol o dan yr un cymwysterau mynediad addysg â phlant gwladolion yr Aelod-wladwriaeth honno. Gallant fod yn gymwys yn yr Aelod-wladwriaeth honno i elwa ar y manteision y darperir ar eu cyfer o dan y ddeddfwriaeth wladol yn y maes hwn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2006 i'r graddau a nodir yn rheoliadau 4 i 6.